

❖ LLE I IESU

‘... esgorodd ar ei mab cyntafanedig; a rhwymodd ef mewn dillad baban a’i osod mewn preseb, am nad oedd lle iddynt yn y gwesty.’
Luc 2:7

Dyma destun llawer o bregethau. Y thema amlycaf a geir yma yw tristwch, cydymdeimlad â Mair, ofn ac atgasedd at geidwad y llety sy’n ymddangos mor greulon a chaled.

Mae Martin Luther mewn pregeth enwog ar y Nadolig yn ymateb yn chwyrn i ymarweddiad dideimlad trigolion Bethlehem, gan daranu:

Cywilydd arnoch, chwi Fethlehemiaid. Dylai brwmstan fod wedi disgyn ar y llety hwnnw, oherwydd tra bod lladron a mwrdrwyr yn lled-orwedd ac yn yfed a bwyta o fewn ei furiau, gwrthodwyd Mair a Joseff ac fe’u danfonwyd i gysgod stabl.

Seiliwyd nifer o bregethau ar y testun hwn gan arwain at ofyn cwestiwn anochel, ‘A oes gennym ni le i Iesu?’

Ond tybed a ydym wedi gadael i’n dychymyg pietistaidd arwain ein dychymyg ar gyfeiliorn? Dylem osgoi ‘darllen yn ôl’ i’r Ysgrythurau ein harferion cyfoes ni. Ni ellir egluro’r ysgrythur gan ddefnyddio dim ond ein gwybodaeth a’n profiad cyfoes.

Nid gwesty fel gwestai heddiw a geir yma, ac nid gwesty fel yn nofelau hanesyddol ffasiynol ein dydd. Gorffwysfan cyffredin teithwyr y ganrif gyntaf yw hwn. Byddai, mae’n debyg, yn cynnwys un ystafell gweddol o faint lle byddai pob lletywr yn rhoi ei bwys i lawr. Yno y cysgent, bwyta, ymolchi (os byddai’r fath foeth â dŵr ar gael), a gwisgo, ac ar adeg brysur fel adeg y Cyfrifiad Rhufeinig, byddai’r ystafell yn orlawn... a doedd hi ddim yn lle cyfleus nac addas i eni baban bach. Ar adeg felly y mae hawl gan y fam i breifatrwydd rhag llygaid busneslyd dieithr.

Mae’n debyg fod Luther yn rhannol gywir wrth sôn am ladron a mwrdrwyr. Efallai ei bod yn deg i ninnau feddwl am geidwad y llety, nid fel dyn creulon, caled, dideimlad, ond fel rhywun â digon o ddynoliaeth yn ei enaid i sylweddoli y byddai’r ddau ifanc yn llawer gwell eu byd yn y stabl nag yng nghanol prysurdeb a miri meddw prif ystafell y llety.

Y gair Groeg a gyfieithir yma fel ‘ystafell’ yw ‘tostos’. Yn ddiddorol iawn mae hwnnw’n cynnwys yn ei ystyr ‘y lle mwyaf addas, pwrpasol’. Efallai mai rhoi yr unig le oedd ganddo i’w roi wnaeth y lletywr. Efallai nad oedd ganddo ond stabl wael. Ond yno fe gafodd Mair a Joseff gysgod a lloches, a chysur gwely gwellt, a phreifatrwydd i eni’r baban, a thawelwch clust ac enaid rhag rhegfeydd trigolion y ’stafell fawr, fel y câi Mair orffwys a chysgu wedi’r daith a’r llafur.

Efallai nad yw hyn i gyd ond rhamantu... Ond, wedi’r cyfan, meddyg oedd Luc, ac nid oedd consym am iechyd a lles ac urddas pobl ymhell o’i galon ef.

Owain Llyr Evans